



Amcan Llesiant 1

Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plnetyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd

Dyma ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2017/18.

Ymrwymiaidau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
A - Cefnogi teuluoedd		
Byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen Dechrau'n Deg , gan hyrwyddo ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd dan anfantais â phlant (0-3) sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig penodol, gan sicrhau cymorth amlasiantaeth da i deuluoedd ar draws y sbectrwm anghenion trwy ddatblygu llwybrau clir gyda phartneriaid mewnol ac allanol. <i>(Cam gweithredu rhif 12477)</i>	✓	Mae'r gwaith o ehangu i Rydaman wedi ei gwblhau bellach, ac mae rhaglen Dechrau'n Deg ar gael bellach mewn 17 o ardaloedd daearyddol ar draws Sir Gaerfyrddin. Mae buddsoddiad cyfalaf wedi rhoi bod i swyddfeydd newydd Dechrau'n Deg a chanolfan gyswllt i deuluoedd, yn ogystal â chanolfan gofal plant newydd yn ysgol newydd Pen Rhos.
Byddwn yn gweithio tuag at ddarparu cynnig gofal plant gwell i rieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth a chymorth ariannol / cymorth adnoddau, yn ogystal â chynyddu nifer y gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg mewn ardaloedd o'r sir sydd wedi'u targedu. <i>(Cam gweithredu rhif 12479)</i>	x	Ni ddewiswyd Sir Gaerfyrddin fel un o'r awdurdodau oedd yn gweithredu'r cynllun ar y cychwyn. Fodd bynnag, cytunwyd ar gyllid ychwanegol bellach gan Lywodraeth Cymru i alluogi Sir Gaerfyrddin i ddechrau cyflwyno'r cynnig gofal plant gwell o fis Ionawr 2019 ymlaen . I baratoi rydym wedi bod yn rhan o grŵp cynghori Cymru Gyfan, ac wedi dysgu gan awdurdodau a roddodd hyn ar waith o'r blaen.
Byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ymlyniad mewn ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion emosiynol plant sy'n agored i niwed. <i>(Cam gweithredu rhif 12481)</i>	✓	Mae'r tîm Addysg a Llesiant (Plant sy'n Derbyn Gofal) wedi cynnal rhaglen hyfforddiant drylwyr ac wedi darparu gwasanaeth mentora i'r staff. Mae pob ysgol â phlant sy'n derbyn gofal wedi derbyn yr hyfforddiant.
Byddwn yn parhau i drawsnewid arferion gwaith cymdeithasol plant drwy gyflwyno'r model Uned Plentyn a Theulu systematig o weithio (mewn Podiau) a chyfuno'n gydlynol ag Arwyddion Diogelwch. <i>(Cam gweithredu rhif 12482)</i>	✓	Mae pob un o'r pedwar tîm gofal plant wedi gweithredu'r model (ynghyd â Signs of Safety, a Thimau Asesu a Maethu. Mae'r gwasanaeth anableded hefyd yn edrych i weithredu dull tebyg. Mae rhaglen o hyfforddiant (gan arbenigwyr) wedi'i rhoi i'r staff a chynhelir fforymau rheolaidd i arweinwyr Podiau.
Byddwn yn cynllunio ac yn ail-gomisiynu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (0-25 oed) gan weithredu newidiadau mewn ymateb i ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru, a chan ddarparu gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar ar gyfer plant dan anfantais, pobl ifanc a theuluoedd ledled y sir. <i>(Cam gweithredu rhif 12483)</i>	✓	Rhaglen ddiwygiedig yn dechrau 1 Ebrill 2018. 13 o brosiectau sy'n canolbwyntio ar atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod, yn ogystal â helpu i liniaru effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod ar y rheiny sydd eisoes wedi eu cael. Arian ychwanegol wedi'i roi i dargedu teuluoedd 'anodd eu cyrraedd', a gweithio gydag ysgolion.
Byddwn yn cymryd rhan weithredol yn yr adolygiad rhanbarthol o drothwyon amddiffyn plant a threfniant amlasiantaeth i archwilio achosion o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant a gweithredu model 'MACSE' (Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant - Amlasiantaeth). <i>(Cam gweithredu rhif 12484)</i>	✓	Mae hon yn flaenoriaeth uchel yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant diogelu sylfaenol ar gyfer yr holl staff. Mae cyfarfodydd MACSE yn dal i ddatblygu. Mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o gynllun prawf Barnardos ac yn datblygu cynllun gweithredu rhanbarthol.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✗	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn parhau i ymestyn ymagwedd y Tîm o Amgylch y Teulu ar draws y sir ar gyfer rhai 0-25 oed, gan egluro trothwyon i helpu i roi gwybodaeth i deuluoedd ac asiantaethau eraill i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'r cymorth iawn ar yr adeg iawn. Byddwn yn datblygu dogfen drothwy i gefnogi'r arfer hwn. <i>(Cam gweithredu rhif 12485)</i></p>	✓	<p>Rydym wedi parhau i ymestyn y Tîm o Amgylch y Teulu gydag atgyfeiriadau wedi cynyddu i 18-20 yr wythnos. Mae dogfen gymhwysedd / trothwy wedi cael ei datblygu ac mae ymyriadau arfer a thystiolaeth systematig ar waith i sicrhau bod teuluoedd yn cael y 'cymorth iawn ar yr adeg iawn'. Mae'r cysylltiadau agos rhwng y Tîm o Amgylch y Teulu a Dechrau'n Deg yn parhau.</p>
<p>Byddwn yn adolygu, yng ngoleuni canllawiau newydd, rôl ysgolion, cynghorwyr, a phartneriaid o ran eu rôl rhianta corfforaethol. <i>(Cam gweithredu rhif 12479)</i></p>	✓	<p>Rydym wedi adolygu rôl ysgolion, cynghorwyr a phartneriaid, datblygu cyngor ac arweiniad, a rhoi hyfforddiant ar waith. Mae'r tîm rhianta corfforaethol hefyd yn cyfrannu at ystod o ddigwyddiadau hyfforddiant mewn swydd i ysgolion.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % presenoldeb plant 2-3 oed cymwys mewn lleoliad gofal plant neilltuedig Dechrau'n Deg, sydd am ddim, i'w paratoi i fod yn barod ar gyfer yr ysgol. <i>(9.1.8.1)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 78.9%)</i> <i>/ Targed 2017/18 - 80%)</i></p>	✗	<p>Canlyniad 2017/18 - 77%. Mae hwn yn ganlyniad siomedig ond roedd yn darged uchelgeisiol. Byddem fel arfer yn cysylltu â theuluoedd â phresenoldeb gofal plant gwael ac yn gweithio gyda nhw i wella, ond oherwydd prinder staff (mamolaeth, salwch a symud i swyddi newydd) nid ydym wedi gallu gwneud hyn. Pan fydd staff wedi cael eu penodi, byddwn ni unwaith eto'n gweithio gyda darparwyr gofal plant ac ymwelwyr iechyd i annog cynnydd o ran cyfraddau presenoldeb ar draws y lleoliadau.</p>
<p>Byddwn yn lleihau % absenoldeb heb awdurdod plant 2-3 oed cymwys mewn lleoliad gofal plant neilltuedig Dechrau'n Deg, sydd am ddim, i'w paratoi i fod yn barod ar gyfer yr ysgol. <i>(9.1.8.8)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 4.07%)</i> <i>/ Targed 2017/18 - 4%)</i></p>	✓	<p>Canlyniad 2017/18 - 3.6%. Mae hyn yn is na'r targed ac yn welliant da. Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr gofal plant ac ymwelwyr iechyd i gadw'r cyfraddau presenoldeb yn y lleoliadau</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni'r deiliant disgwylidig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen <i>(PAM/003)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 85.9%)</i> <i>/ Targed 2017/18 - 86.5%)</i></p>	✗	<p>Canlyniad 2017/18 - 85.6%. Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae wedi dirywio o gymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol. Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn parhau i gefnogi a herio'r holl ysgolion o ran cynnydd mewn deilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae'n ddefnyddiol nodi bod dau ddarn allweddol o waith cenedlaethol, sef Categoriiddio Cenedlaethol a Fframwaith diwygiedig Arolygu Estyn bellach yn canolbwyntio mewn rhagor o fanylder ar 'gynnydd disgyblion unigol.' Nid yw hyn yn eithrio dadansoddiadau ffurfiannol o berfformiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol, ond mae potensial y bydd yn darparu cyd-destun ehangach i'r mesur hwn.</p>
<p>Fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd, gofynnir i blant a ydynt yn fodlon ar y gofal a'r gefnogaeth maent yn eu cael. <i>(PAM/027)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - Roedd 81.7% yn fodlon ac roedd 1.2% yn dweud nad oeddent yn fodlon)</i> <i>/ Targed 2017/18 - 82% neu uwch)</i></p>	✗	<p>Canlyniad 2017/18 - Roedd 80.7% yn fodlon (2.4% yn dweud nad oeddent yn fodlon). Anfonwyd cyfanswm o 438 o holiaduron i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth perthnasol a dim ond 88 a ddychwelyd er gwaethaf ymdrechion gan weithwyr i geisio ymgysylltu â theuluoedd. Nid yw pob teulu bob amser yn croesawu ymyrraeth statudol, a dyma</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>pam y maent yn gyndyn i lenwi holiaduron. Mae gweithdai a hyfforddiant wedi cael eu cynnal gyda gweithwyr cymdeithasol i wella ansawdd asesiadau ac i sicrhau cyfranogiad pellach gan deuluoedd. Cyflwyno cyfarfodydd rhwydwaith teulu sy'n fwy rhyngweithiol ac sy'n galluogi teuluoedd i gyfrannu mewn modd gonest ac agored ac i gyd-lunio cynllun gofal a chymorth.</p>
<p>Ein nod yw cadw i leiafswm ganran y plant sy'n derbyn gofal a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau pontio. (SCC/32) (Canlyniad 2016/17 – 3.4% / targed 2017/18 - 5.0%)</p>	✓	<p>Canlyniad 2017/18 – 4.0% (5 allan o 124 o blant). Targed o 5% yn realistig yn seiliedig ar berfformiad yn y gorffennol a chanlyniad Cymru o 12.7% (16/17). Rydym wedi perfformio'n eithriadol o dda, fodd bynnag bydd % y canlyniad yn amrywio yn dibynnu ar nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd o oedran ysgol gorfodol ar ddiwedd pob cyfnod - po isaf y nifer po uchaf % y canlyniad. Mae gostyngiad wedi bod yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd o oedran ysgol gorfodol ar ddiwedd 2017/18 (124) o'i gymharu â 2016/17 (145), felly mae'r ganran yn uwch, ond mae nifer y plant sy'n newid ysgol yn parhau i fod yr un fath (5). Gwneir ymdrechion i gynnal sefydlogrwydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl drwy sicrhau bod plentyn yn parhau i fod yn yr un ysgol. Fodd bynnag, nid yw hyn wastad er budd y plentyn e.e. pellter i deithio, anghenion academaidd y plentyn ddim yn cael eu diwallu.</p>
<p>Ein nod yw lleihau % y plant mewn gofal yr oedd yn rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy (PAM/029) (Canlyniad 2016/17 - 11.2% / Targed 2017/18 - 10.7%)</p>	✓	<p>Canlyniad 2017/18 – 8.8% - mae hyn yn well na'n targed. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi gweld gwelliant sylweddol mewn sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal gan fod % y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud lleoliad 3 gwaith neu fwy wedi gostwng 6% o 14.9% ym mis Mawrth 2016 i 8.8% ym mis Mawrth 2018.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu canran yr asesiadau plentyn a gwblheir ar amser (PAM/028) (Canlyniad 2016/17 – 82.9% / Targed 2017/18 - 84%)</p>	✓	<p>Canlyniad 2017/18 - 89.7%. Wedi rhagori ar y targed ac wedi gwella o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae staff yn parhau i gwblhau asesiadau o fewn 42 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr atgyfeiriad lle bynnag y bo'n bosibl heb amharu ar ansawdd yr asesiad. Cynhelir archwiliadau misol yn rheolaidd gan Reolwyr Gwasanaeth.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod plant a gefnogir yn dal i fyw gyda'u teulu lle bynnag y bo'n bosibl (SCC/25) (Canlyniad 2016/17 – 79.7% / Targed 2017/18 - 80.7%)</p>	✓	<p>Canlyniad 2017/18 - 81.5%. Rydym yn falch ein bod wedi rhagori ar ein targed. Rydym wedi parhau i weld gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Ein ffocws yw gwasanaethau ataliol gan gadw plant gyda'u teuluoedd pryd bynnag y mae'n ddiogel i wneud hynny.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✗	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn dychwelyd adref o ofal mor gyflym a mor ddiogel â phosibl (SCC/26)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 - 24.6% /Targed 2017/18 - 25.2%)</p>	✗	<p>Canlyniad 2017/18 - 22.7%. Er nad yw'n cydymffurfio â'r targed, mae hyn dipyn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2016/17 o 13.6%. Rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n gadarnhaol ond sydd wedi dylanwadu ar y canlyniad yn y pen draw. Oherwydd gweithrediad y Ddeddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol, nid ystyrir rhai plant a oedd yn y gorffennol yn cael seibiannau byr yn blant sy'n derbyn gofal mwyach. Roedd y rhan fwyaf o'r plant hyn eisoes yn byw gyda'r teulu ac yn derbyn gofal seibiant ar benwythnosau. Gadawodd nifer o bobl ifanc ofal yn ystod y flwyddyn gan eu bod wedi cyrraedd 18 oed ond roeddent yn gallu aros gyda'u gofalwyr maeth dan drefniadau <i>Pan Fydda i'n Barod</i>. Mae rhai wedi'u mabwysiadu ac mae eraill yn dewis byw'n annibynnol. Mae'r Panel Parhauster yn monitro Plant sy'n Derbyn Gofal a darperir cymorth i sicrhau nad yw Plant yn Derbyn Gofal os nad oes wir angen, a'u bod yn cael eu dychwelyd adref cyn gynted ag y bo'n ddiogel bosibl iddynt wneud.</p>
<p>Ein nod yw lleihau % yr achosion o ailgofrestru plant ar Gofrestrau Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol (CPR) (SCC/27)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 – 10.4% / targed 2017/18 9.4%)</p>	✓	<p>Canlyniad 2017/18 - 0.7%. (1 ailgofrestru). Roedd gwelliant amlwg o gymharu â'r llynedd (10 o ailgofrestriadau). Mae cofrestriadau a datgofrestriadau yn destun cynadleddau achos aml-ddisgyblaethol a gynhelir o dan fodel <i>signs of safety</i>. Mae'r adborth gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn dal yn gadarnhaol. Mae'n fwy rhyngweithiol, sy'n galluogi teuluoedd i fod yn rhan o'r broses hon mewn modd agored a gonest. Mae'n adeiladu ar gryfderau ac yn defnyddio rhwydwaith y teulu i leihau'r risg ac i ddatblygu cynlluniau diogelwch da.</p>
<p>Byddwn yn lleihau'r cyfartaledd amser ar gyfer yr holl blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn (SCC/28)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 - 275 diwrnod / Targed 2017/18 - 273 o ddiwrnodau)</p>	✓	<p>Canlyniad 2017/18 - 213.1 diwrnod. Gwelliant ar y flwyddyn flaenorol a rhagori ar y targed. Caiff cofrestriadau amddiffyn plant eu hadolygu yn achos cynadleddau amlasiantaeth gan ddefnyddio model <i>signs of safety</i>. Mae amser ar y gofrestr amddiffyn plant yn dibynnu ar anghenion pob plentyn. (*gweler uchod am fanylion pellach).</p>
B - Anghenion Addysgol Arbennig		
<p>Byddwn yn parhau i neilltuo cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol i ysgolion a'u helpu i fapio darpariaeth a diwallu'r holl anghenion ar lefel leol. Byddwn yn ystyried camau yn y dyfodol i ddatblygu fformiwla cyllid ysgolion genedlaethol wedi'i seilio ar anghenion ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. (Cam gweithredu rhif 12487)</p>	✓	<p>Mae pob ysgol bellach yn derbyn cyllid ADY dirprwyedig ac mae Swyddogion Cynhwysiant yn cefnogi ac yn eu herio i fapio darpariaeth, olrhain cynnydd a diwallu anghenion pob un ar lefel leol. Mae rhaglen waith i ddatblygu capasiti Systemau Rheoli Ysgolion (Teacher Centre yn y Cynradd a SIMS yn yr Uwchradd) i gynnal mapiau darpariaeth ysgolion unigol. Ar ôl gwaith wedi'i dargedu ar adolygu'r dulliau cyllido presennol mae fformiwla ariannu newydd bron â'i gwblhau.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion i ddatblygu eu hymagweddau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion i nodi angen, cyflawni darpariaeth dysgu ychwanegol bersonol a darparu ymatebion integredig cyfannol drwy waith amlasiantaeth. <i>(Cam gweithredu rhif 12488)</i></p>	✓	<p>Drwy'r Fforymau Cydgysylltwyr ADY, cyfarfodydd Penaethiaid a hyfforddiant a hyfforddiant personol uniongyrchol, mae'r holl ysgolion wedi cael cymorth i ddatblygu eu hymagweddau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion er mwyn nodi angen yn gynnar, darparu Cynllun Dysgu Ychwanegol personol a darparu ymatebion integredig cyfannol drwy waith amlasiantaeth.</p>
<p>Byddwn yn parhau i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Unigol i ddiwallu'r holl anghenion ym mhob cam. <i>(Cam gweithredu rhif 12489)</i></p>	✓	<p>Mae cymorth uniongyrchol i ysgolion ar gyfer datblygu 'Proffiliau Un Dudalen' i gefnogi addysgu a dysgu i'r holl ddisgyblion a Chynlluniau Datblygu Unigol i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn barhaus. Mae 'Hyfforddiant i Hyrwyddwyr' wedi cael ei gynnal yn llwyddiannus gyda 45 o Gydgyssylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae hyn wedi arwain at gynllunio ar gyfer trawsnewid yn yr ysgol a gwell rheoli proses gan ddefnyddio methodoleg cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion. Darperir Hyfforddiant Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion i athrawon am 2 ddiwrnod bob tymor fel y mae hyfforddiant 1 diwrnod i Gynorthwywyr Addysgu. Swyddogion Cyswllt Teulu yn cwrdd â rhieni unigol a grwpiau o rieni i rannu gwybodaeth am ddatblygiad trawsnewid ADY o fewn Sir Gaerfyrddin.</p>
<p>Byddwn yn monitro, yn gwerthuso ac yn dathlu cyflawniadau wrth gyrraedd cerrig milltir allweddol o ran diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn enwedig y fframwaith asesu a gwerthuso i roi'r hyder i ysgolion fod yn arloesol. <i>(Cam gweithredu rhif 12490)</i></p>	✓	<p>Mae'r grant arloesi wedi ein galluogi i secondio 4 Cydgysylltydd ADY Rhanbarthol Ychwanegol i ddatblygu astudiaethau achos o arferion da ac i ddatblygu modelau ymarfer a darpariaeth. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gwblhau a bydd yn cael ei rannu â Phenathiaid a Chydgyssylltwyr ADY yn ystod tymor yr haf 2018. Ni fydd y grant arloesi yn parhau, ond bydd yn datblygu i fod yn grant trawsnewid am y 2 flwyddyn nesaf. Mae offeryn mapio darpariaeth Sir Gaerfyrddin yn cael ei lunio ar hyn o bryd yn y <i>teacher centre</i> gyda golwg ar ei gyflwyno yn ystod blwyddyn ysgol 2018/19. Mae'r grant Trawsnewid wedi ein galluogi ni i secondio 2 Gydgyssylltydd ADY i helpu ysgolion i gynllunio ar gyfer trawsnewid a darparu cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/hyfforddiant trawsnewid.</p>
<p>Byddwn yn adolygu data'r gweithlu mewn perthynas ag ystod o wasanaethau cymorth, e.e. Seicoleg Addysg a Phlentyn, cymorth Nam ar y Synhwyrac ac Athrawon Ymgynghorol, i sicrhau cymorth ar gyfer nifer fach o achosion o anghenion cymhleth iawn a nifer fawr o achosion o anghenion sy'n isel eu cymhlethdod. <i>(Cam gweithredu rhif 12491)</i></p>	✓	<p>Mae'r gwaith o ddadansoddi ac amserlennu'r gofyniad i newid datganiadau i Gynlluniau Datblygu Unigol yn mynd rhagddo. Lefelau staff cymorth i ddiwallu anghenion disgyblion lle mae nifer yr achosion yn fach a'r angen yn fawr yn cael ei adolygu, yn dibynnu ar lefel y galw. Bydd cydweithio â Rheolwr Trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru yn galluogi'r Awdurdod Lleol i nodi parodrwydd yr Awdurdod Lleol a'i ysgolion i fodloni'r gofynion o ran y gweithlu ar gyfer Trawsnewid ADY.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn cynyddu % y cyngor seicolegol statudol a gyflwynir o fewn amserlen 6 wythnos. (4.1.2.1)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 – 83% / Targed 2017/18 - 85%)</p>	x	<p>Canlyniad 2017/18 - 81%. Mae cynnydd o 15% wedi bod o ran faint o Gyngor Seicolegol sydd ei angen yn y flwyddyn (o 65 i 74) a gostyngiad bychan yn y ganran a fodlonwyd o fewn yr amserlen. Mae'r rhesymau yn amrywio o ddiffyg gwybodaeth allweddol, cleientiaid ar wyliau i broblemau meddalwedd TG. Mae'r problemau hyn wedi cael sylw lle bo hynny'n bosibl.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % y datganiadau terfynol o angen addysgol arbennig a gyhoeddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau (EDU/015a)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 – 43.9% / Targed 2017/18 - 45%)</p>	x	<p>Canlyniad 2017/18 - 37%. Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae'n dangos dirywiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd nifer o achosion lle na lwyddwyd i'w cyflwyno ar amser, o achos ystod o amgylchiadau cymhleth a heriol. Roedd y rhain yn cynnwys oedi anochel o ran derbyn elfennau allweddol tystiolaeth a chyngor a achoswyd gan faterion capasiti nas rhagwelwyd. Byddwn yn parhau i gydgyssylltu a gweithio ar y cyd â'n hasiantaethau partner ar sail achos unigol, gan geisio atebion pellach drwy drafodaethau amlasiantaeth parhaus a dadansoddi anghenion.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % y datganiadau terfynol o angen addysgol arbennig a gyhoeddir o fewn 26 o wythnosau ac eithrio eithriadau (EDU/015b)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 – 71.4% / Targed 2017/18 - 90%)</p>	x	<p>Canlyniad 2017/18 - 74.1%. Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae wedi gwella rhyw fymryn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r canlyniad hwn yn ymwneud â nifer fach o achosion (7 allan o 27) yn methu'r targed oherwydd heriau ychwanegol o ran sicrhau cyngor, gofynion ychwanegol sy'n codi yn ystod y broses (dewis rhieni), ac effaith annisgwyl materion cysylltiedig â chapasiti. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau partner i sicrhau gwelliannau a chydweithio parhaus i gefnogi achosion unigol.</p>